Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mehefin 27ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Dawn Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price, Cyng Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Cyng Ieuan Gwyn.

Cyn y cyfarfod cafodd y Cyngor ei annerch gan Rhiannon Rowley ynglŷn â'r cysyniad o ddatblygu Llandeilo fel Tref Trawsnewid.
Yn dilyn cynhadledd a gynhaliwyd yn Llambedr Pont Steffan ym mis Ebrill, sefydlwyd pwyllgorau llywio mewn nifer o drefi yng Nghymru. Mae'r cysyniad yn ymwneud â chymunedau yn ystyried polisïau sy'n lleihau effeithiau o ean newid yn yr hinsawdd. Y syniad yw fod pobl o bob sector o'r gymuned yn ymwneud ag ef. Cyfarfod agored am 8pm yn y Neuadd Ddinesig ar Orffennaf 9fed fydd cyfarfod nesaf grŵp Llandeilo.

Materion yr Heddlu : Mynychwyd gan y Rhingyll Neil Jones ynghyd â Robert Smith, y Swyddog Cymorth Cymunedol.
Trafodwyd tri mater.
• Diolchodd i'r Cyngor am yr ohebiaeth yn ymwneud â'r cyfyngiadau parcio ceir yn Stryd y Bont a gofynnodd am gopi o sylwadau'r Cyngor.
• Mae'r Heddlu yn gweithio gyda'r rheini sydd â Thrwydded i leihau'r broblem o bobl yn ymgasglu ar balmentydd y tu allan i eiddo Trwyddedig yn hwyr y nos. Mae hyn wedi cynyddu ers cyflwyno'r gwaharddiad ysmygu.
• Cais gan y Salutation am newid Trwydded i gynnwys adloniant tan hanner nos ddydd Gwener a Sadwrn.

Cof 90 / Mehefin / 07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd Cofnodion o Gyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mai 23ain, 2007 fel cofnod cywir
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Gwener Mai 25ain, 2007, fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cymeradwywyd Cofnodion o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Ailddechreuwyd a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ddydd Mercher 30ain fel cofnod cywir wedi i'r newidiadau canlynol gael eu cynnwys:
Cof 67/ Mai/ 07 eitem 7. Siambr Fasnach newid Dirprwy Faer i'r Maer.
Eitem 10 Monitro Personél. Cynigiwyd y Cyng Edward Thomas gan y Cyng Ieuan Gwyn.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Mehefin 13eg fel cofnod cywir, a'u hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn wedi cynnwys y newidiadau canlynol :
Cof 75/ Mehefin / 07 Parth . Cais Cynllunio E/15949 ychwanegu 'Yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol, mae'r sylwadau fel a ganlyn'.
Cof 80 /Mehefin / 07(1) Newid Trevor i Richard.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mehefin 13eg, 2007 fel cofnod cywir a'u hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn wedi cynnwys y newidiadau canlynol :
Cof 84 /Mehefin /07 ychwanegu enw llawn Claudine Le Corre i'r cyfrifon i'w talu.
Ychwanegu bod y rhodd i'r Gymdeithas Gefeillio am 2 flynedd'
Ychwanegu bod 'y rhodd o £50 i'r adran Rygbi Ieuenctid wedi'i wneud gan gwmni'r Ffair a'i bod wedi'i rhoi yn y banc mewn camgymeriad.'
Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 91 / Mehefin / 07 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol
Parth. Materion yr Heddlu ar ddechrau cyfarfod o'r Cyngor Llawn cyfredol (ar 27ain Mehefin), pan wnaeth Cynghorwyr ystyried y cais gan y Salutation Hotel i newid trwydded.
Cafodd y cais ei ystyried gyda dau gynnig
1. Gwrthwynebu'r cais am ymestyn y drwydded tan 2.30 am nos Wener a Sadwrn, cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn
Wallace. Cofnodwyd y bleidlais fel a ganlyn. O blaid y cynnig 6 pleidlais. Yn erbyn y cynnig 2 bleidlais.
2. Cynigiwyd cefnogi'r cais am drwydded adloniant tan 12 canol nos gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Fran Murphy. Cofnodwyd y bleidlais fel a ganlyn. O blaid y cynnig, 7 pleidlais. Yn erbyn y cynnig, 2 bleidlais.
Parth. Cof 75 / Mehefin /07 Parth Cais Cynllunio E/16452 Cais am ymweliad safle. Mae hyn wedi digwydd a chroesawyd sylwadau'r Cyngor gan y Swyddog Cynllunio a bydd yn cydweithio gyda'r adran Cadwraeth Coed er mwyn cadw'r tair coeden a nodwyd.
Parth. Cof 78/ Mehefin / 07. Mae dyddiad y cyfarfod gyda John McEvoy wedi'i gadarnhau ar Fehefin 28ain
Parth Cof 87 / Mehefin/ 07. Mae'r Clerc wedi siarad â Gerwyn Thomas CSC mewn perthynas â Pharc Penlan. Byddant yn cyflawni rhaglen gynnal a chadw ond efallai bydd angen cymorth ariannol gyda chost gosod prif gatiau newydd.

Cof 92 / Mehefin/ 07 I drafod y llwybr arfaethedig ar gyfer Ffordd Osgoi Llandeilo
Dosbarthodd y Cyng Roy Davies adroddiad ar rai materion y gall y Cyngor eu hystyried.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins y dylai'r Cyngor anfon llythyr at Lywodraeth y Cynulliad yn nodi fod yna faterion yn eu cynigion yr hoffai'r Cyngor Tref gael cyfle i'w trafod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Roy Davies.
Rhoddodd y Cyng Hugh Towns gynnig arall sef y dylai'r Cyngor yn gyntaf ystyried pob mater cyn cyflwyno llythyr i Lywodraeth y Cynulliad. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Derbyniwyd yr ail gynnig trwy bleidlais 7 o blaid 1 yn erbyn.
Gofynnwyd i Gynghorwyr ystyried pob mater yn yr adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Orffennaf 25ain.

Cof 93 / Mehefin/ 07 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Nododd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai Mr Philip James o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sicrhau lle i'r gweithdai ar gyfer gwaith Treftadaeth Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd. Teimlai y byddai'r prosiect hwn o fantais i'r Dref. Bydd Eleri Davies yn hysbysu'r Cyngor o ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn Beechwood, a gwahoddwyd aelodau a deimlai eu bod yn gallu cyfrannu at y prosiect i fynychu.
Mae cam 2 o'r parcio i drigolion wedi dod o flaen Bwrdd Gweithredol CSC. Cynhelir ymgynghoriadau rhwng Ionawr a Mawrth 2008.
Adroddwyd am ddefnydd heb awdurdod o'r warws sydd ar waelod Teras Tomos i'r Adran Gynllunio. Roedd y cynllunwyr wedi rhoi estyniad o dri mis i ddod ag unrhyw fasnachu i ben yno.
Wnaeth y Cyng Hugh Towns ddatgan diddordeb parthed yr eitem hon a llofnododd y llyfr datganiadau.
Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cyng Charlotte Leadbeater a'r Cyng Pam Steane Price mewn perthynas â'r parcio i'r anabl y tu allan i'r Neuadd Ddinesig, awgrymodd y CS Jones y dylai'r Cyngor gysylltu â Mr John McEvoy.
Dywedodd y CS Jones ei fod yn hapus iawn i adrodd bod Ysgol Tre-gib wedi ennill Gwobr Busnes i'r Ifanc yng Nghymru.

Cof 94/ Mehefin / 07 Materion Ariannol.

1 Anfonebau i'w Talu	
Gwesty'r Cawdor (Cinio'r Maer 25.6.07)	£ 2,367.80
(Tynnir swm o £2015.15 o dreuliau'r Maer.)	
BT (ffôn swyddfa)	£ 58.10
Orchardweb (gosod eitemau ar y wefan a chost trwydded)	£ 63.87
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (Tanysgrifiad blynyddol y Clerc)	£ 75.00
Des Davies (ychwanegiad at dreuliau a gytunwyd arnynt yng nghyfarfod cyllid Mehefin)	£ 31.84
Rhentu garej y gellir ei gloi (M. Williams 1.5.06-15.07)	£ 152.00
Treuliau'r clerc (postio a phrynu llygoden a châs i'r cluniadur)	£ 90.22
Aelodaeth Calon Cymru (cytunwyd ar hyn yn y CBC)	£ 10.00
Llogi'r Neuadd Ddinesig (Glanhau'r Dref 23.6.07)	£ 19.25

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy y dylid talu'r rhain. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill

i) Trosglwyddo Arian
Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid trosglwyddo £15,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif busnes. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid. Gofynnodd y Swyddog Cyllid am osod eitem agenda cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid er mwyn trafod cyflwr y cyfrifon. Er gwybodaeth nododd bod £1,787.85 i'w drosglwyddo o'r cyfrif cyfredol i gyfrif y Maer.
ii) Asesiad Risg Ariannol
Adroddodd y Cyng Hugh Towns ei fod ef a'r Swyddog Cyllid wedi cwrdd er mwyn trafod y polisi cyfredol ac argymhellodd nad oes angen ei newid. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r Cyngor dderbyn hyn. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 95/ Mehefin / 07 Trafnidiaeth a Goleuadau
Doedd yna ddim materion i'w dwyn i sylw'r Cyngor.

Cof 96/ Mehefin / 07 Adroddiad y Maer
Rhoddodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r holl ddigwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor.

Cof 97 /Mehefin/ 07 Adroddiad yr Is-grŵp Iechyd
Dosbarthodd y Cyng Charlotte Leadbeater adroddiad ar gyfarfod o'r Bwrdd Iechyd lleol a gynhaliwyd yn Nant y Ci ar Fai'r 24ain, 2007, a hefyd hysbyswyd Aelodau o gartref gofal newydd ym Mhorth tywyn. Mae'r Cyng Leadbeater yn optimistaidd y bydd yna Glinig traed yn cychwyn yn Llandeilo cyn hir.

Cof 98 / Mehefin / 07 Prosiect yr Ardd Gymunedol.
Dosbarthodd y Cyng Pam Steane adroddiad i'r Cyngor. Roedd y Cyng Steane Price wedi mynychu cyfarfod o Rwydwaith CSC yn ymdrin a cheisiadau grant a bydd yn cwrdd â Eleri Davies o Brosiect Tywi Afon yr Oesoedd.
Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau ymlaen i'r prosiect. Cytunwyd y dylai pob Aelod ystyried yr opsiynau posib a chyflwyno eu sylwadau i'r Clerc erbyn dydd Iau, Gorffennaf 20fed er mwyn eu dosbarthu cyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Orffennaf 26ain, 2007. Trafodir y prosiect ymhellach yn y cyfarfod hwnnw.

Cof 99 / Mehefin/ 07 Adroddiad y Wefan.
Gofynnodd y Cyng Fran Murphy i bawb sy'n cyfrannu i anfon y wybodaeth ddiweddaraf yn electronig at y Clerc, cyn gynted â phosib.

Cof 100/ Mehefin / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.
Dywedodd y Cyng Richard Wallace fod y grŵp wedi cwrdd â'r Clwb Rygbi. Dywedodd y Clwb Rygbi eu bod am dderbyn ffi o £150 o gwmni'r Ffair fyddai'n mynychu yn ystod yr arddangosfa. Nid yw'r Clwb Rygbi am weld unrhyw fwyd yn cael ei werthu yn ystod y digwyddiad. Hefyd roeddynt am weld yr arian yn cael ei roi i brif gangen y Clwb ac nid i'r adran Ieuenctid. O ganlyniad i'r anawsterau hyn ni chaniateir i'r Ffair ddod i'r arddangosfa Tân Gwyllt eleni. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 101 / Mehefin / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
Dywedodd y Cyng Richard Wallace bod y goleuadau newydd ychwanegol wedi'u harchebu. Mae'r Swyddog Technegol wedi paratoi llythyron i'w dosbarthu i'r busnesau mewn perthynas â'r coed Nadolig.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6 am 20 munud er mwyn cwblhau busnes y Cyngor.

Cof 102 / Mehefin /07 Adroddiad y Llwybr Treftadaeth
Adroddodd y Cyng Richard Wallace mai dim ond 1400 o'r taflenni llwybr Treftadaeth sydd ar ôl mewn stoc.
Argymhellodd y Cyng Ros Bellamy y dylai'r Cyngor chwilio am ddyfynbrisiau gan gwmnïau ar gyfer dosbarthu'r taflenni y flwyddyn nesaf. Awgrymwyd y dylid gofyn i Susan Van
Eeghan a fyddai CSC yn ystyried dosbarthu'r taflenni. Bydd angen dosbarthu argraffiad o 10,000 yn gynnar yn ystod Gwanwyn 2008. Awgrymwyd y dylai'r Clerc archwilio i'r gost o gyfieithu'r daflen i ieithoedd eraill.
Gofynnodd y Cyng Roy Davies i Gynghorwyr gysylltu ag ef pe baent yn gallu ei gynorthwyo ar Orffennaf 20fed i ddangos grŵp o rwng 40 – 60 o amgylch Llwybr y Dref.

Cof 103 / Mehefin / 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.
Adroddodd y Swyddog Technegol bod y tendrau wedi'u derbyn ar gyfer peintio'r canopi a'r rheilins ar flaen Neuadd y Sir.
Mae'r tendrau fel a ganlyn:
D. Thomas £1100 eithrio TAW
DC & SM Moses £ 1210 eithrio TAW
Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid derbyn y tendr isaf. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Adroddodd y Swyddog Technegol ei fod wedi dod o hyd i achos y lleithder ar flaen wal ffrynt Neuadd y Sir sef dwythell draenio sydd wedi'i gau, ac mae angen ei glirio.

Cof 104 / Mehefin / 07 . Gohebiaeth sydd angen ei Ateb
1. Ysgol Tre-gib yn gofyn am Gynghorydd i eistedd ar bwyllgor rheoli'r cyfleuster pob tywydd yn yr ysgol. Cynigiwyd y Cyng Hugh Towns gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
2. Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed Powys yn diolch i'r Cyngor am ei lythyr o werthfawrogiad ynglŷn â'r gwaith Cymorth Cymunedol.

Daethpwyd â'r Cyfarfod i ben gan fod yr amser a ganiateir yn ôl y Rheol Sefydlog wedi dod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.57 p.m.